Wrexham County Borough
Bwrdeistref Sirol Wrecsam

ENWEBIADAU CYMDEITHASAU TAI

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Cymdeithas Tai Wales & West Housing Association

Habinteg Housing Association Ltd

Cymdeithas Tai Clwyd

Abbeyfield
Where older people find care in housing

ENWEBIADAU CYMDEITHASAU TAI

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut all Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam "enwebu" ymgeiswyr sydd ar ei restr aros a beth i'w wneud os ydych am gael eich "enwebu".

Beth yw "enwebiad"?

Yn ogystal â'r 11,000 o dai sydd gennym i'w dyrannu'n unol â'n Polisi Gosod, rydym hefyd yn "enwebu" neu'n argymell ymgeiswyr oddi ar ein rhestr aros i fod yn denantiaid newydd mewn tai gwag sy'n perthyn i Gymdeithasau Tai.

Beth yw Cymdeithas Tai?

Mae Cymdeithasau Tai yn gyrff annibynnol nid er elw sy'n adeiladu ac yn rheoli tai ac yn darparu cefnogaeth i'r rheiny sydd ag anghenion tai.

Mae dros 1,800 o dai yn ardal Wrecsam sy'n cael eu rheoli gan nifer o wahanol Gymdeithasau Tai.

Os byddwch yn denant i Gymdeithas Tai, bydd eich tenantiaeth yn debyg iawn i denantiaeth y Cyngor, er y bydd eich hawliau ychydig yn wahanol. Yn gyffredinol, gellwch gadw'r denantiaeth am ba bynnag hyd y dymunwch. Mae'r rhenti'n fforddiadwy a gellwch hawlio budd-dal tai os ydych yn ennill incwm isel.

Sut mae'n gweithio?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gwneud hi'n ofynnol i Gymdeithasau Tai ein helpu i ddod o hyd i gartrefi i bobl sydd mewn angen. Rhaid iddynt ofyn i ni ddarparu enwau h.y. "enwebeion" ar gyfer o leiaf 50% o'u tai sy'n dod yn wag.

ENWEBIADAU CYMDEITHASAU TAI

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Bydd y cymdeithasau'n cysylltu â ni pan fyddant yn gwybod bod t? ar fin dod yn wag ac yn gofyn i ni am enwebiadau.

Byddwn yn rhoi 2 neu 3 o "enwebeion" ar gyfer pob eiddo gwag, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan ddewis ymgeiswyr sydd:

- wedi gofyn am eiddo o'r math a'r maint hwnnw yn y lleoliad hwnnw
- wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn cael eu henwebu ar eu ffurflen gais am d?
- â'r flaenoriaeth uchaf yn ôl ein Polisi Gosod.

Os cewch eich dewis, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ein bod yn anfon eich manylion at y Gymdeithas Tai ac y byddant yn cysylltu â chi cyn bo hir.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y gymdeithas yn trefnu i ymweld â chi cyn penderfynu p'un a ydynt am gynnig yr eiddo i chi ai peidio. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael cynnig ysgrifenedig o denantiaeth a gofynnir i chi a ydych am ei dderbyn.

Bydd ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig y Gymdeithas Tai yn cael eu tynnu oddi ar restr aros y Cyngor.

Os ydych wedi cyflwyno'ch hunan yn ddigartref i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bod gennym ddyletswydd gyfreithiol i'ch helpu i ddod o hyd i lety, byddwch yn derbyn llythyr i'ch hysbysu bod y cynnig tenantiaeth gan y Gymdeithas Tai yn cyflawni ein dyletswydd i chi. Mae hyn oherwydd y credwn fod yr eiddo'n addas i'ch anghenion. Gellwch ofyn i ni adolygu'r penderfyniad hwn.

ENWEBIADAU CYMDEITHASAU TAI

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Beth ddylech ei wneud os ydych am gael eich enwebu?

Os ydych am i ni ystyried eich enwebu chi, dylech nodi hynny ar dudalen 12 y Ffurflen Gais am D?.

Rhestrau aros Cymdeithasau Tai

Mae gan Gymdeithasau Tai eu rhestrau aros eu hunain a ddefnyddir i ddyrannu'r 50% arall o'u tai gwag. Gellwch wneud ceisiadau uniongyrchol i'r Cymdeithasau Tai yn ogystal â bod ar restr aros y Cyngor.

Cymdeithasau Tai sy'n rhan o'r Cytundeb Enwebiadau

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Uned 14, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Dinbych. LL17 0LJ Ffôn: 01745 357100 www.clwydalyn.co.uk

Cymdeithas Tai Wales and West
Uned 2, Parc Busnes Acorn, Ffordd yr Aber, Y Fflint. CH9 5YN
Ffôn: 0870 0131930 www.wwha.net

Cymdeithas Tai Clwyd
54 Stryd Y Dyffryn, Dinbych LL16 3BH
Ffôn: 01745 815220 www.taiclwyd.com

Cymdeithas Tai Habinteg
Regional Office, Beech House, Woodland Park, Bradford Road, Chain Bar, Bradford. BD19 6BW
Ffôn: 0845 6023626 www.habinteg.org.uk
(Yn darparu tai i bobl ag anawsterau symud yn unig)

Abbeyfield
5 Derwen Villas, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1HZ
Ffôn: 01352 751992 www.abbeyfield.com
(Yn darparu tai i bobl h?n)